**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred CYSAG Gwynedd y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Gwynedd wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Gwynedd felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod CYSAG Gwynedd ar 13 Hydref 2010, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

**Manylion cyswllt:** (kenrobinson@gwynedd.gov.uk) 01286 679888

**Enw (Clerc CYSAG): Ken Robinson.**

**Cyfeiriad: Swyddfa Addysg Ardal Arfon, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH.**

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

# Enw'r Ysgol: CARMEL

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

Mae safon Addysg Grefyddol yn dda. Mae safon y gwrando ymateb a chyfrannu yn dda.

- Rhoddir profiadau da ar draws y cwricwlwm Addysg Grefyddol ac yn allgyrsiol (e.e. gwasanaethau).
- Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn Addysg Grefyddol.
- Mae'r disgyblion yn mwynhau eu gwersi ac maent yn lleisio barnau synhwyrol am yr hyn y maent yn eu dysgu.
- Mae'r athrawon a'r disgyblion yn cyd gynllunio cwestiynau allweddol ar gyfer dysgu.
- Mae'r disgyblion yn ymwybodol o'r nod addysgol a'r meini prawf llwyddiant a cheir tystiolaeth o hyn yn eu llyfrau.
- Mae'r plant hynaf yr ysgol yn datblygu eu sgiliau o osod eu meini prawf llwyddiant eu hunain drwy edrych ar enghreifftiau o arfer dda mewn gwahanol ffurfiau.
- Targedir sgiliau hunan arfarnu'r disgyblion. Gwneir hyn trwy amryfal ddulliau asesu ar gyfer dysgu.
- Ymfalchiwn fod gan yr ysgol ran weithredol yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol a'r gymuned ehangach. Rhoddir cyfleoedd cyson i'r disgyblion i gyd-gyfranogi a chyd-berthnasu gydag eraill o fewn gweithgareddau cymdeithasol a drefni'r gan yr ysgol e.e. gwasanaethau Cymorth Cristnogol yr ardal, Diolchgarwch, Dydd Gŵyl Dewi, Gwasanaeth Nadolig. Maent oll yn sicrhau profiadau real i'r plant a'u galluogi i wneud cyfraniad gweithredol i'w cymuned a sut i gydweithio ag oedolion o fewn eu teulu a thu allan.

*(Tystiolaeth: Llyfrau gwaith disgyblion, arsylwi gwersi, cyfweliadau â disgyblion, llyfrau digwyddiadau ysgol.)*

**Materion i gael sylw**

- Edrych ar ddarpariaeth ar gyfer disgyblion abl a thalentog gan sicrhau bod tasgau gwahaniaethol fel bod y disgyblion yn cyrraedd eu llawn potensial.

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

Darperir ystod o brofiadau sydd yn cwrdd â gofynion 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol ar gyfer dysgwyr CA2.

- Mae arsylwadau gwersi yn dangos fod yr addysgu yn dangos nodweddion da ar draws yr ysgol.
    - Defnyddio ystod o strategaethau addysgu i ymglymu disgyblion ac i apelio at arddulliau dysgu gwahanol ddisgyblion.
    - Defnyddi'r adnoddau effeithiol i bwrpas i gefnogi'r dysgu gan y disgyblion.
    - Disgyblion yn cael rhan weithredol yn y drefn gynllunio a rhoddi'r cyfleoedd i'r plant feddwl am gwestiynau i arwain trywydd eu gwaith.
    - Cyd-gynllunio effeithiol rhwng yr athrawesau a'r staff cefnogol, cymorthyddion Cyfnod Sylfaen a chymhorthydd ADY.
    - Rhannu'r nod addysgol a chyd-gynllunio'r meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion a'r modd y datblygwyd hyn i herio'r disgyblion hynaf i geisio llunio eu meini prawf eu hunain.
    - Defnyddir 'partneriaid trafod' a 'arfau' eraill medrau meddwl i sicrhau cyfranogiad gan y disgyblion.
    - Athrawon yn ymwybodol o bwysigrwydd gofyn cwestiynau agored er mwyn gwneud i'r plant feddwl. Cwestiynu i ymestyn dealltwriaeth disgyblion.
    - Gwaith gwahaniaethol, addasu'r dasg, disgwyliadau neu gynhaliaeth.
    - Marcio gwaith y disgyblion yn gyson gan ddangos y ffordd ymlaen iddynt i wella'u gwaith.
- Rhoddir amser i addysgu Addysg Grefyddol yn wythnosol neu mewn bloc o amser (e.e. cyfnodau arbennig Pasg, Nadolig yn y Cyfnod Sylfaen)
- I gynnig profiadau lletach i'r disgyblion trefni'r ymweliadau a gwahoddir ymwelwyr addysgol i rannu gwybodaeth a darparu profiadau a gweithgareddau. Mae effaith yr ymweliadau a chyfraniadau gwahanol a difyr ymwelwyr yn rhoi profiadau ysgogol ac yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o gyd destunau amrywiol o fewn y cynlluniau gwaith (e.e. gweinidogion, ymweliadau a chapeli, eglwysi).
- Addysgi'r disgyblion yn dda am grefyddau eraill er mwyn ennyn eu parch a'u dealltwriaeth o arferion sydd yn wahanol i'w hetifeddiaeth hwy.
- Mewn cyfnodau o gyd-addoli a gwasanaethau eraill rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio'n ysbrydol a thrafodi'r gwerthoedd a moeseg.

(*Tystiolaeth: Cyfweliadau â disgyblion, llyfrau gwaith, cynlluniau gwaith, llyfrau gweithgareddau ysgol, adroddiad y pennaeth.)*

Materion i gael sylw

- Parhau i addasu cynlluniau i gyd-fynd a themâu.
- Angen manylu wrth gynllunio tymor byr.

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Mae trefniadau'r ysgol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda.

- Cynhelir addoli ar y cyd ysgol gyfan ar bedwar diwrnod yr wythnos a gwasanaeth dosbarth ar un diwrnod.
- Mae naws ysbrydol i'n gwasanaethau ac mae'r plant yn cael rhan weithredol ambell dro i greu eu gwasanaeth eu hunain.
- Rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion mewn cyfnodau o gyd-addoli i fyfyrio'n ysbrydol a thrafodir gwerthoedd a moeseg.
- Sicrheir cyfleoedd i ddisgyblion ddangos empathi ac i ddangos diolchgarwch at elusennau o'u dewis hwy (e.e. Help the Heroes, RSPCA).
- Dilynir rhaglen o themâu ar gyfer gwasanaethau, themâu Beiblaidd, Addysg Fyd Eang, Elusennau, materion sy'n ymwneud â pharch at eraill ac addysg bersonol a chymdeithasol.
- Mae'r gwaith a wneir yn gyhoeddus ar gyfer gwasanaethau Dydd Gŵyl Dewi, Diolchgarwch, Nadolig yn cynnig datblygiadau ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol ardderchog i'r disgyblion.
- Cyfnod o weddi cyn amser cinio ac i gloi'r diwrnod ar draws yr ysgol.

(*Tystiolaeth: arsylwi gwasanaethau, cyfweliadau â disgyblion, llyfrau gweithgareddau ysgol, rhaglen themâu ar gyfer gwasanaethau.)*

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: *Gwawr Britton* (Pennaeth Safle dros-dro)

Dyddiad: 12 Ebrill 2011